

**CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN**  
**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH**  
**18 Tachwedd 2021, Trwy Zoom**  
**am 7:00 y.h.**

<b>YN BRESENNOL:</b>	
Cyng W Vaughan, A Williams, C McGregor, D Pritchard, D Roberts, W Williams, R G Parry (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	
Cyng A Wyn, E S Williams, D Rees (Cyngor Sir)	
<b>1</b>	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Roberts. Croesawodd y Cadeirydd Carwen Davies, Rheolwr Cymunedau a Phartneriaethau Gogledd Orllewin a De Orllewin Cymru, Tempo. Siaradodd Carwen am waith Tempo a'r hyn y gallant ei gynnig i wirfoddolwyr cymunedol.
<b>2</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b> – Dim
<b>3</b>	<b>DERBYN COFNODION</b> Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 19.10.21. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio.
<b>4</b>	<b>MATERION YN CODI O'R COFNODION</b>
<b>4.1</b>	<b>Cydgodfan Bws, Talwrn</b> – Bydd y Clerc yn cysylltu â nhw eto i ofyn am ddyddiad i ddechrau'r gwaith
<b>4.2</b>	<b>Damweiniau Sgwar Talwrn</b> - Bydd y Cyngor Sir yn gosod arwydd "chevron" Petai arian grant diogelwch y ffyrdd yn dod ar gael ar y lôn yma byddant yn ystyried gosod arwydd fflachio. Bydd y Clerc yn cael prisiau am oleuadau sy'n fflachio ar gyfer y cyfarfod nesaf
<b>4.3</b>	<b>Dwr ar lôn Benllech – Llanddyfnan</b> – Bydd y Clerc yn anfon nodyn atgoffa at y Cyngor Sir
<b>4.4</b>	<b>Carthffosiaeth Talwrn</b> – Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru: <i>Cefais diweddariad gan Dwr Cymru mewn cyfarfod ym mis Medi. Roeddynt adeg hynny yn ceisio cael gwybodaeth am berchnogaeth tir, fel yr ydym wedi ei drafod gyda chi.</i>
	Llofnod.....Cadeirydd <span style="float: right;">18.01.22</span>

	<p><i>O fod wedi siarad efo Catrin Jones yn Nwr Cymru ddoe, maent bellach wedi cael y wybodaeth ar berchnogaeth y tir oedd dan sylw, ac yn barod i symud ymlaen gyda gwaith CCTV yn y fan honno. Ond yn dilyn y glaw mawr dros yr wythnos diwethaf, bydd lefel y dwr yn rhy uchel i fedru defnyddio camera yn y garthffos nes y bydd y tywydd wedi sychu am gyfnod. Byddant yn cadw llygaid ar y tywydd gan obeithio cael cyfnod sych i fedru gwneud y gwaith. Maent yn dymuno gwneud y gwaith mor fuan a phosib.</i></p> <p><i>Deallaf na chafodd Dwr Cymru gwynion o Talwrn am unrhyw beth yn gorlifo yn ystod y tywydd gwlyb yn yr wythnos diwethaf.</i></p>
<b>4.5</b>	<b>Mynwent Llanddyfnan (tap)</b> - Mae'r Clerc yn disgwyl i blymwr ailosod y tap
<b>4.6</b>	<b>Gor-yrru Maenaddwyn</b> - Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb i'w e-bost o 30.10.21 i'r Cyngor Sir ynghylch gor-yrru ym Maenaddwyn. Felly bydd yn cyfeirio'r mater at y Prif Weithredwr.
<b>4.7</b>	<p><b>Cyffuriau yn y Dingle, Llangefni</b> – Ymateb Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd: <i>Yr ydym wedi nodi cynnwys eich e-bost ond gan fod yr hyn yr ydych yn ei godi yn fater gweithredol mater i Heddlu Gogledd Cymru yw hyn.</i></p> <p><i>Rydym hefyd wedi gyrru eich e-bost i'r Arolygydd lleol i wneud yn siŵr ei fod yn ymwybodol o'r mater yr ydych yn ei godi.</i></p>
<b>4.8</b>	<b>Beiciau trydan</b> - Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at Gomisiynydd yr Heddlu
<b>4.9</b>	<b>Gor-yrru/Ildio Talwrn</b> – Ymateb y Cyngor Sir: <i>Diolch am eich e-bost gyda sylwadau am y system ildio i draffig ger y Sgwâr yn Nhalwrn. Byddwch yn ymwybodol wedi galwadau gan y Cyngor Cymuned y gosodwyd arwydd ychwanegol yma mewn ymdrech i arafu traffig wrth ddod at y safle ildio. Nid wyf yn awyddus i gynyddu'r nifer o arwyddion gan fod y system 'ildio i draffig o'r cyfeiriad arall' wedi ei arwyddion yn ddigonol. Er hyn byddwn yn adolygu i weld os oes angen adnewyddu'r marciau ffordd i wneud y pwynt ildio yn fwy amlwg.</i>
	Llofnod.....Cadeirydd 18.01.22

<b>5</b>	<b>GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON</b>
	<b>Cynllunio</b>
<b>5.1</b>	VAR/2021/43 Beudy Bodeilio, Talwrn – dim sylwadau
	<b>Priffyrdd</b>
<b>5.2</b>	<p><b>Palmant Llangwyllog</b> – Ymateb y Cyngor Sir: <i>Cyfeiriaf ar eich e-bost yn nodi'r cais i gael palmant rhwng Llangwyllog a Bodffordd.</i></p> <p><i>Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol wneud cais am arian grant i wella cyfleusterau teithio yn llesol o fewn cymunedau. Mae amodau'r ceisiadau yma yn gaeth a rhaid i welliannau fod yn gysylltiedig â gwella cyfleoedd i gerdded a beicio i gyfleusterau ac adnoddau lleol neu ar gyfer sefydliadau cyflogaeth. Weithiau ceir cyfleoedd i ddarparu adnoddau cerdded sydd ddim gydag amodau mor gaeth ond yn arferol rhaid eu cwblhau mewn cyfnodau byr felly mae unrhyw waith sy'n golygu pryniant tir yn cael ei ddiystyru.</i></p> <p><i>Nodi'r byddai angen gwariant cyfalaf sylweddol i greu llwybr cerdded rhwyg Llangwyllog a Bodffordd a hefyd yr angen am bryniant tir a symud terfynau yn ôl. Byddair gwaith yma ddim yn cyd fynd gyda gofynion teithio'n llesol felly dim yn gymwys am arian grant. O ystyried natur y cais yna mae'n annhebygol iawn y gellir symud ymlaen gydag unrhyw gynlluniau i sefydlu palmant rhwng Llangwyllog a Bodffordd</i></p>
<b>5.3</b>	<b>Talwrn</b> – gweler 4.2
<b>6</b>	<b>GOHEBIAETH YCHWANEGOL</b>
<b>6.1</b>	Cyfoeth Naturiol Cymru – gweler 4.4
<b>6.2</b>	Comisiynydd yr Heddlu – gweler 4.7
<b>7</b>	<b>MATERION ARIANNOL</b>
<b>7.1</b>	Adolygu cyflog y Clerc - Cytunwyd i gynyddu cyflog y Clerc i bwynt graddfa 35 ar ddyfarniad cyflog cenedlaethol NALC 2020-21 o Ebrill 2022. Y Cyng C McGregor yn cynnig ac y Cyng W Vaughan yn eilio. Diolchodd y cyngor i'r Clerc hefyd am ei waith dros y flwyddyn.
	Llofnod.....Cadeirydd 18.01.22

<b>7.2</b>	Cytunwyd i dalu costau y Clerc – £120.72
<b>8</b>	<b>MATERION ERAILL</b>
<b>8.1</b>	Ymddiriedolaeth Elusen Tir Llanffinan - Dywedodd y Cynghorydd McGregor ei fod yn disgwyl am gofnodion y cyfarfod a fynychodd
<b>8.2</b>	Gofeb Talwrn - Diolchodd yr aelodau i Mr Gwyn Williams am baentio'r rheiliau ac i'r ysgol am osod pabïau wrth y gofeb
<b>9</b>	<b>MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF</b>
	Dim
	Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen I pawb
	Llofnod.....Cadeirydd 18.01.22